# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen (2022-2037)

## Cytundeb Cyflawni: Crynodeb Gweithredol - Gorffennaf 2023

*This document is available in English*
*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

### 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn i awdurdodau lleol lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu hardal ac i baratoi Cytundeb Cyflawni hefyd er mwyn ei ddatblygu.

1.2 Mae'r Cytundeb Cyflawni yn cynnwys Cynllun Cynnwys y Gymuned ac Amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl. Rhaid i'r Cytundeb Cyflawni gael ei gymeradwyo gan y Cyngor ac yna rhaid i Lywodraeth Cymru gytuno arno cyn i'r gwaith ddechrau ar y CDLl.

**Adroddiad Adolygu'r CDLl**

1.3 Cafwyd adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol cyntaf Torfaen (2006-2021) a chyflwynir y canfyddiadau yn Adroddiad Adolygu'r CDLl sydd ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar https://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Forward-Planning/Local-Development-Plan-Review/Torfaen-ldp-Review-Report.pdf:

1.4 Daeth Adroddiad Adolygu'r CDLl i'r casgliad y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) yn dilyn y broses adolygu lawn.

**Tynnu CDLlN Gwreiddiol Torfaen (2018-2033) Yn Ôl**

1.5 Felly, yn 2018, trwy broses Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl, penderfynodd y Cyngor ddechrau paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2033. Wedi cynhyrchu amrywiaeth o dystiolaeth gefndir, galwad am safleoedd ymgeisiol a allai gael eu cynnwys yn y cynllun newydd, a gweithdai 'cyfranogiad' gydag Aelodau a rhanddeiliaid cyffredinol / penodol (allweddol), cytunodd y Cyngor ar gynllun drafft y cyfeirir ato fel Cynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen: Y Strategaeth a Ffefrir, ym mis Medi 2020. Aeth y cynllun hwn ymlaen i fod yn destun ymgynghoriad ffurfiol o fis Tachwedd 2020 hyd nes mis Ebrill 2021.

1.6 Fodd bynnag, yn dilyn hyn penderfynodd y Cyngor dynnu'r cynllun hwn yn ôl yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill 2023 (am resymau sy'n cael eu hesbonio yn Adroddiad y Cyngor); a chadarnhawyd hyn gan Un o Weinidog Cymru ar 2 Mai 2023. Wedi tynnu'r CDLlN (2018-2033) yn ôl, dywedwyd wrth yr holl randdeiliaid ei fod wedi cael ei dynnu yn ôl a dywedwyd wrthynt am fwriad y Cyngor i ddechrau ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd gydag amserlen ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2037.

**Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (2022-2037)**

1.7 Cyn bod modd dechrau o ddifri ar y gwaith o ddiwygio CDLl, rhaid i'r Cyngor baratoi Cytundeb Cyflawni a rhaid i Lywodraeth Cymru gytuno arno. Felly, mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni Drafft. Mae'r ddogfen hon yn Grynodeb Gweithredol o'r Cytundeb Cyflawni Drafft.

**Diben y Cytundeb Cyflawni**

1.8 Mae'r Cytundeb Cyflawni yn ddatganiad cyhoeddus cryno ac mae iddo ddwy ran: Amserlen ar gyfer paratoi diwygiad o'r CDLl yn dilyn adolygiad (gweler Adran 2 isod) a; Chynllun Cynnwys y Gymuned, sy'n nodi sut y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gyfrannu at y gwaith o baratoi'r cynllun, ei ddatblygu, ei fonitro a'i adolygu, a phryd y byddant yn gallu gwneud hynny (gweler Adrannau 3 a 4 isod).

1.9 **Adran 2: Amserlen**

**Ffigur 2.1 - Amserlen Y Camau Allweddol** (gan gynnwys dyddiadau cyfranogi allweddol*)

| Cam | Disgrifiad o'r Cam | Amserlen |
|---|---|---|
| 1 | Adolygu'r CDLl | Rhag 17 - Ebr 18 |
| 2 | Llunio Cytundeb Cyflawni | Mai / Gorff 23 |
| | Cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni a Chytuno Arno | Gorff / Awst 23 |
| 3 | Adolygu'r Sylfaen Dystiolaeth a'i Diweddaru | Mai / Medi 23 |
| 4 | Cyfranogiad Cyn Adneuo | |
| | Galwad am Safleoedd Ymgeisiol* | Awst / Medi 23 |
| | Ymgysylltu ar Y Weledigaeth a'r Amcanion* | Tach 23 |
| | Datblygu'r Opsiynau Gofodol a Thyfiant | Tach 23 / Ion 24 |
| | Ymgysylltu ynghylch yr Opsiynau Gofodol a Thyfiant* | Rhag 23 / Ion 24 |
| | Datblygu'r Strategaeth a Ffefrir | Ion 24 / Ebr 24 |
| 5 | Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn Adneuo - Y Strategaeth a Ffefrir | |
| | Y Cyngor yn ystyried y Strategaeth a Ffefrir | Ebr 24 |
| | Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir* | Mai 24 / Meh 24 |
| | Paratoi Cynllun Wedi'i Adneuo | Gorff 24/Rhag 24 |
| 6 | Adneuo'r Cynigion yn Statudol | |
| | Y Cyngor yn ystyried y Cynllun wedi'i Adneuo | Ion 25 |
| | Ymgynghoriad ar y Cynllun wedi'i Adneuo* | Chwe / Maw 25 |
| | Asesu'r ymgynghoriad a pharatoi at ei gyflwyno | Maw / Awst 25 |
| | Y Cyngor yn ystyried yr hyn a gyflwynwyd | Medi 25 |
| 7 | Cyflwyno i Lywodraeth Cymru | Hyd 25 |
| 8 | Archwilio'r CDLlN* | Ion / Maw 26 |
| 9 | Derbyn Adroddiad yr Arolygydd | Medi 26 |
| 10 | Mabwysiadu'r CDLlN | Hyd 26 |
| 11 | Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLlN | Hyd 28 |

1.10 Yn **Adran 3** y 'Cytundeb Cyflawni Drafft' ceir '**Cynllun Cynnwys y Gymuned'**, sy'n cyflwyno egwyddorion y Cyngor, ei strategaeth a'i broses ar gyfer ymgysylltu'n

rhagweithiol â'r gymuned trwy gydol y broses o baratoi'r CDLl. Bydd ymgysylltu â'r gymuned a chreu consensws ar gam cynnar yn elfen bwysig o'r CDLl newydd, er mwyn bodloni egwyddorion Llywodraeth Cymru. Mae'r pum ffordd o weithio a gyflwynir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhan greiddiol o'r Cynllun Cynnwys y Gymuned, a dyma'r pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal.

1.11 Awgrymir ystod o ddulliau ymgysylltu, o gyswllt uniongyrchol trwy lythyr a neges e-bost , i'r cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion, arddangosfeydd gwybodaeth cyhoeddus a gweithdai; sy'n dangos sut y bydd pobl a mudiadau yn cael eu cynnwys wrth baratoi'r cynllun newydd. Mae'r Cytundeb Cyflawni Drafft hefyd yn cynnwys rhestr o'r holl gyrff ymgynghori penodol, cyffredinol ac eraill y byddwn yn ymgynghori â nhw trwy gydol y broses ac a fydd yn cael eu cynnwys yn ystod camau cynnar y gwaith paratoi.

1.12 Mae **Adran 4** y 'Cytundeb Cyflawni Drafft' am **'Fonitro ac Adolygu'** yn dangos sut y bydd y Cyngor yn sicrhau bod y gwaith o baratoi'r CDLl yn cadw at yr amserlen trwy gydol y broses a sut y bydd yn llunio Adroddiad Monitro Blynyddol i ddweud sut y mae'r cynllun newydd yn dod yn ei flaen, bob blwyddyn ar ôl ei fabwysiadu. Yna, oni fydd Adroddiad Monitro Blynyddol yn dangos nad yw'r cynllun yn gweithio a bod angen adolygiad cynnar, bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob pedair mlynedd fel mater o drefn.

1.13 Roedd y Cytundeb Cyflenwi Drafft yn destun ymgynghoriad wedi ei dargedu gyda rhanddeiliaid allweddol am 3 wythnos ym Mehefin/Gorffennaf 2023.

1.14 Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad, cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor ar 18fed Gorffennaf 2023 i ystyried y sylwadau i gyd a chymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi newydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth derfynol. Templed Adroddiad Craffu (torfaen.gov.uk)

1.15 Cytunodd Llywodraeth Cymru i'r Cytundeb Cyflenwi ar 20 Gorffennaf 2023 a bydd gwaith yn digwydd wedyn ar y CDLl Torfaen Newydd (2022-2037) yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi a gytunwyd.

1.16 Os hoffech chi gysylltu â'r Adran Polisi a Gweithredu Cynllunio neu os oes angen unrhyw wybodaeth ar y CDLl wrth iddo ddatblygu, rhowch sylwadau:

- trwy anfon neges e-bost i ldp@torfaen.gov.uk; neu
- yn ysgrifenedig, i'r Tîm Polisi a Gweithredu Cynllunio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YN.